# Y Gwir Anrhyydeddus Alun Michael AS

# Adroddiad Blynyddol 2011/12

Yn 2010, ar adeg yr Etholiad Cyffredinol, nodais fy mlaenoriaethau gwleidyddol ar gynhoi mewn "cerdyn addewid" 5 pwynt. Roeddwn cymryd yr addewidion hynny yn ddifrifol iawn, felly yn yr Adroddiad Blynyddol hwn rwy'n disgrifio'r hyn yr wyf wedi bod yn ei wneud i gyflawni'r addewidion hynny - hyd yn oed fel A.S. i'r wrthblaid. Cydnabod yn unig gydym ac ni all adlewyrchu fy holl waith (gwaith achos, achosion, ymchwil, gwaith rhyngwladol, areithiau cysyllteiadau cymunedol ac ati) ond fe all ddangos rhan o'r darlun, gyda ffocws ar flaenoriaethau a chyflawni.

Alun Michael

## Ar adegau anodd mae'n hanfodol lleihau troseddu

**Roedd fy addewid i barhau i weithio'n galed i leihau troseddu - yn genedlaethol ac yn lleol - yn elfen amlwg yn y pum addewid etholiadol i bleidleiswyr y llynedd.**

Rwyf wedi bod yn weithgar iawn fel aelod o'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref felly gofynnais i'r pwyllgor ddod i Gaerdydd am seminar lle cafwyd cyflwyniad gan y Prif Gwnstabl ac archwiliwyd y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n egnïol gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i leihau nifer y bobl ifanc sy'n troseddu.

Edrychwyd hefyd ar droseddu treisgar a gwaith yr Athro Jon Shepherd yng Nghaerdydd. Mae ef yn arbenigwr ym maes damweiniau ac achosion brys a sylweddolodd nad yw mesur troseddu yn ôl yr hyn y mae pobl yn ei adrodd yn ddibynadwy.

Mae gofyn faint o bobl sy'n mynd i'r ysbyty am driniaeth ar ôl digwyddiad treisgar yn fwy cywir – ac mae'n galluogi'r heddlu i fynd i'r afael â materion gwirioneddol. Dyma pam y mae troseddu treisgar wedi gostwng 40% a pham y mae Caerdydd yn gwneud llawer yn well na dinasoedd cymaradwy. Mae'n arbed arian i'r GIG ac mae'n atal pobl rhag bod yn ddioddefwyr.

Euthum hefyd â'n Prif Gwnstabl, Peter Vaughan, i gwrdd â Gweinidog yr Heddlu i esbonio'r pwysau ar ein heddlu wrth ymdrin â materion mewn prifddinas – fel y diwrnod pan oedd yn rhaid iddynt ymdopi â gêm rygbi ryngwladol (Cymru v De Affrica), India'r Gorllewin yng Ngerddi Soffia, a chyngerdd mawr yn Lecwydd a gorymdeithiau gan y grŵp asgell dde eithafol, Cynghrair Amddiffyn Lloegr, ac Uno'n Erbyn Ffasgaeth ..... i gyd ar yr un diwrnod. Fe wnaeth yr heddlu ymdopi'n dda dros ben – ond mae'n ymestyn adnoddau yn fwy nag mewn dinasoedd cyfwerth ac rwyf wedi gofyn i'r Gweinidog ystyried premiwm ar gyfer Caerdydd i dalu am gostau o'r fath.

Mae angen i ni gadw rhoi pwysau ar fynd i'r afael â throseddu yn Ne Cymru ac mae hynny'n anodd pan fyddwn o dan fygythiad o 395 yn llai o Swyddogion yr Heddlu – 1 ym mhob 8 – a thoriadau tebyg o ran staff ystafell gefn y mae eu gwaith yn aml yn hanfodol ar gyfer swyddogion rheng flaen. Ond mewn cyfnod anodd mae'n fwy pwysig hyd yn oed i ganolbwyntio ar leihau troseddu ac ofn troseddu. Mae'n ddyletswydd arnom ar ran y dioddefwyr a'r rhai sy'n agored i niwed.

**Dilynwch Alun Michael ar Twitter— @alunmichaelmp**
**Gwefan: www.alunmichael.com Ebost: alun.michael.mp@parliament.uk**
**Ffôn : Caerdydd 029 2022 3533 San Steffan 020 7219 5980**

YN GWASANAETHU: Butetown • Cogan • Grangetown • Llandochau • Llanrhymni
Penarth • Tredelerch • Sblot • Llaneirwg • Sili • Tremorfa • Trowbridge

# Y Gwir Anrhyydeddus Alun Michael AS

**Beth am werthfawrogi ein gilydd a gwrando ar ein gilydd**

Mae pawb yng Nghaerdydd yn dlotach ar ôl marwolaeth Sheikh Said - ond yn llawer cyfoethocach o gofio arweinydd Mwslemaidd doeth, athro crefyddol meddylgar a pherson rhagorol. Bu ei dad farw mewn llynges osgordd ar Fôr yr Iwerydd, ac ar ôl ei flynyddoedd cynnar yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr, treuliodd Sheikh Said y rhan fwyaf o'i fywyd yng Nghaerdydd. Roedd yn cael ei edmygu'n fawr fel dyn y bobl, gyda hiwmor tyner ond treiddgar a dealltwriaeth dda o'r ffordd y mae pobl yn gweithio.

Gan ddeall Butetown yn well na neb, dywedodd wrthym "yn y Dociau, rydym i gyd yn dathlu gwyliau ein gilydd am ein bod i gyd yn mwynhau parti da". Ond y tu ôl i'r sylw hwnnw, sy'n ymddangos yn ysgafn, ceir dealltwriaeth bod rhannu amser gyda'n gilydd yn creu parch tuag at ein gilydd ..... ac mai dathlu pethau da bywyd yw'r ffordd orau o amddiffyn rhag pethau drwg bywyd.

Roedd yn falch o ddweud "Rwy'n ddyn Llafur i'r carn" a rhoddodd lawer o gefnogaeth i mi trwy gydol y 25 mlynedd diwethaf ac yn fwy diweddar i Vaughan Gething. Ond ffrind beirniadol ydoedd, nid rhywun y gellid ei gymryd yn ganiataol. Pan oedd yn anghytuno â'r Llywodraeth Lafur, roedd yn dweud hynny gyda brwdfrydedd ac eglurder a'r hyder y byddem yn gwrando arno gyda pharch. Ac roedd yr un mor gadarn yn dadlau bod yn rhaid i bawb mewn cymdeithas ddemocrataidd ddadlau eu hachos mewn awyrgylch o barch at ei gilydd, yn hytrach na gwneud dicter yn esgus dros drais neu gasineb.

Dangosodd Sheikh Said y ffordd y gall egwyddorion a gwerthoedd gryfhau cymuned pan gânt eu gweithredu gyda goddefgarwch a pharch. Trwy ei flynyddoedd yn arwain yn Butetown, dangosodd Sheikh Said lwybr arweinyddiaeth ddyngarol i ni i gyd. Yn dilyn ei flynyddoedd o wasanaeth, ac ar ôl dioddef ei salwch yn ddewr, bydded iddo orffwys mewn hedd.

## Mae angen rheoleiddio cadarn ond <u>annibynnol</u>

Nid oes llawer o wrandawiadau Seneddol wedi bod mor ddramatig â'r rheiny lle mae swyddogion uchaf yr heddlu wedi bod yn rhoi tystiolaeth (ar y cyd ag archwiliad y teulu Murdoch) ynghylch y sgandal hacio ffonau symudol, a arweiniodd at ddiddymu'r News of the World. Fe wnaethy datgeliadau bod ffôn Milly Dowler wedi cael ei hacio, a'r ymyrryd â galar teuluoedd milwyr, gythruddo ASau a'r cyhoedd fel ei gilydd. Yn unigryw bron, galwodd y Llefarydd ni yn ôl o'n gwyliau am drafodaeth frys ynghyd ag ymchwiliad yr heddlu.

Ym mis Mehefin, dywedais, "Mae'r Comisiwn Cwynion y Wasg yn llawn bwriadau da ond, mewn gwirionedd, mae'n jôc. Mae'r cyhoedd a newyddiadurwyr yn haeddu gwell... Mae'n amlwg nad oes gan y Comisiwn Cwynion y Wasg yr ewyllys na'r gallu i newid pethau." Rwy'n credu y gallai rheoleiddiad y wasg a'r cyfryngau gan asiantaethau'r llywodraeth beryglu annibyniaeth y wasg, a fyddai'n gamgymeriad enfawr, ond mae angen corff gwirioneddol annibynnol arnom sydd yn gadarn ac yn effeithiol â'r pwerau cyfreithiol i ymchwilio a gorfodi.

Efallai fydd yr ymchwiliad gan yr Arglwydd Ustus Leveson yn argymell corff o'r fath, ond rwy'n amau y bydd ei adroddiad yn osgoi mynd i'r afael â'r mater sylweddol hwn, a bydd yn cynnig newidiadau cynyddrannol fydd yn gwneud braidd dim i ddatrys y broblem.

Fel cyn newyddiadurwr fy hun, gwn nad oes llawer o bobl yn mynd i mewn i'r proffesiwn â'r uchelgais o godi crachod ac amharu ar alar preifat, ond nid yw diwylliant ac amgylchedd newyddiaduraeth heddiw yn iach. Mae angen i ni amddiffyn annibyniaeth a gwella proffesiynoldeb newyddiadurwyr unigol mewn gwasg a chyfryngau rhydd lle disgwylir i bawb wneud eu gwaith yn gyfreithlon, yn onest, yn broffesiynol heb ofn na mantais. Ni ellir gwneud hynny o dan y trefniadau presennol.

**Rhyngrwyd – buddion a heriau**

Pan fyddaf yn ymweld ag ysgolion yn yr etholaeth, rwy'n gweld rôl hanfodol y Rhyngrwyd ym mywydau plant. Gallant ganfod ystod anhygoel o wybodaeth trwy glic ar y llygoden, ond maent hefyd wedi mynd yn agored i fwlio a thwyll. Ni allwn "adael i'r geeks" ddatrys y broblem, dyma pam yr wyf wedi codi materion yn ymwneud â'r Rhyngrwyd yn y Senedd ac wedi dechrau gweithio gydag arbenigwyr i wneud y Rhyngrwyd yn fwy diogel. Rwyf wrth fy modd bod llawer o ysgolion cynradd lleol wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth TG yr ydym yn ei hyrwyddo fel ASau. Rydym wedi cael dau enillydd mewn tair blynedd.

Rwyf hefyd wedi bod yn gadeirydd Gwobrau Rhyngrwyd Nominet ers iddynt ddechrau bum mlynedd yn ôl a phob blwyddyn, mae'r enillwyr yn gwella. Eleni, canmolwyd llwyddiant o Gymru: eDrosedd Cymru, menter gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r heddlu. Mae eDrosedd Cymru wedi dangos i'r DU ac i'r byd mai partneriaeth yw'r ffordd orau o wneud y rhyngrwyd yn offeryn diogel ar gyfer dysgu, busnes a chyfathrebu - ac er ei fod yn fydeang, GALLWCH wneud pethau'n lleol trwy bartneriaeth.

## Buddugoliaeth i gadernid lleol!

Gan weithio gyda thîm rhagorol o wirfoddolwyr lleol, rydym wedi ennill y frwydr i achub Tir Hamdden Tredelerch. Roedd y Cyngor eisiau adeiladu ysgol ar "faes y pentref", ond ymladdodd tîm unedig y frwydr am bedair blynedd: grŵp ymgyrch RREEL, cynghorwyr lleol, Aelodau'r Cynulliad (Lorraine Barrett yn wreiddiol ac yna ein AC newydd, Vaughan Gething) a'r gymuned leol gyfan. Ar adegau, roeddem yn poeni na fyddem yn ennill am fod Cyngor Caerdydd (o dan arweiniad y Democratiaid Rhyddfrydol gyda chefnogaeth Plaid Cymru) mor benderfynol o fynd ymlaen. Roedd y bobl leol yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu, yn arbennig ar ôl i'r ymgyrch orfodi'r cyngor i gynnal refferendwm lle pleidleisiodd 93% i amddiffyn y tir.

Ar ran y tîm lleol, gwnes gais wedyn i gofrestru'r tir fel "maes tref neu bentref". Yn hytrach na rhoi mewn, cyflogodd y cyngor fargyfreithiwr arbenigol i gynnal ymchwiliad cyhoeddus ar gost o filoedd o bunnoedd – arian talwyr y dreth gyngor, er mwyn ymladd talwyr y dreth gyngor!

Yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus, rhoddodd y gymuned leol unedig dystiolaeth ragorol, ond parhaodd y cyngor tan fis Hydref pan wnaethant, yn y diwedd, roi mewn – gan achub y tir ar gyfer cenedlaethau i ddod.

Bydd ysgol yn cael ei lleoli ar safle presennol Ysgol Uwchradd Tredelerch – opsiwn oedd yno o'r cychwyn – ac mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i alluogi'r prosiect i fynd ymlaen. Bellach, gall Canolfan Hamdden y Dwyrain, a fyddai wedi cael ei llyncu gan gynlluniau adeiladu'r cyngor, gael ei hadnewyddu hefyd.

Mae'n rhaid i'r ysgol newydd, fydd yn gwasanaethu Trowbridge a Llaneirwg yn ogystal â Llanrhymni a Thredelerch, fod yn ysgol i'r gymuned gyfan. A byddaf yn parhau i roi pwysau i gofrestru Tir Hamdden Tredelerch fel maes y pentref i'w ddiogelu rhag unrhyw ymosodiadau yn y dyfodol.

Mae bod yn rhan o'r ymgyrch hwnnw wedi bod yn rhan allweddol o fodloni fy addewid etholiadol o weithio'n galed ar faterion amgylcheddol. Ac mae'n cyd-fynd â'm haddewid i weithio gyda gwirfoddolwyr a'r sector gwirfoddol.

## Seneddwr y Flwyddyn

Eleni cefais fy ethol yn "Seneddwr y Flwyddyn" gan y Gymdeithas Dyfrffyrdd Mewndirol. Mae camlesi Prydain yn rhan hanfodol o'n treftadaeth genedlaethol, ac rwyf wedi eirioli ers tro eu tynnu allan o Adran y Llywodraeth (Defra) a gadael i'r cyhoedd eu rheoli trwy fath o "Ymddiriedolaeth Genedlaethol i'r Dyfrffyrdd". Cafodd y syniad ei gefnogi gan Huw Irranca Davies fel y Gweinidog Dyfrffyrdd ac mae'r gwaith hwnnw'n parhau. Rwyf bellach yn obeithiol y daw'r corff newydd i rym gyda chymorth y Gweinidog presennol, Richard Benyon.

Gellir cydweithredu mewn sawl ffordd. Mae gennyf gyfarfod â'r Gweinidog dros Drafnidiaeth i drafod y syniad o "Rheilffordd y Bobl" – gan wneud y rheolwyr yn atebol i'r teithwyr. Mae'r datblygiadau o dan arweiniad Huw Lewis AC ar Dai Cydweithredol yn cael eu gwylio gyda diddordeb gan Jack Dromey AS, sydd bellach yn Weinidog Tai yr Wrthblaid. Ac rwy'n falch ein bod yn cael ymateb mor gadarnhaol i newid y berthynas â'r gweithlu a'r cyhoedd trwy gysyniad "Cyngor Cydweithredol". Rwy'n rhagweld bod yr 21ain Ganrif yn mynd i fod yn ganrif o gydweithredu.

## Pam nad ydynt yn achub bywydau?

Yn yr Haf, yn ystod gwyliau teuluol, cymerais amser i gyfarfod â Dirprwy Brif Swyddog Tân yn Vancouver i weld yr hyn y maent wedi ei wneud i achub bywydau trwy osod systemau chwistrellu. Ym 1973 bu 40 o 'farwolaethau tân' yn Vancouver. 37 o flynyddoedd yn ddiweddarach yn 2010, mae'r boblogaeth wedi dyblu, ond dim ond pedair 'marwolaeth tân' oedd. Mae hynny'n arwyddocaol oherwydd nid yw'r DU wedi dysgu'r wers honno. Pob clod i Ann Jones AC, a gyflwynodd y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol cyntaf o'r meinciau cefn i wneud systemau chwistrellu yn orfodol mewn anheddau newydd yng Nghymru. Cafodd ei ohirio gan y biwrocratiaid, ond mae bellach yn gyfraith. Gan nad yw'n berthnasol i weddill y DU, rwy'n ceisio cyflwyno Mesur Aelod Preifat yn San Steffan. Hyd yn oed os daw gosod system chwistrellu ym mhob cartref newydd yn orfodol, bydd yn cymryd blynyddoedd i ni weld yr effaith - felly gorau po gyntaf y caiff y penderfyniad ei wneud. Mae Cymdeithas Yswirwyr Prydain a Phrif Swyddogion Tân yn fy nghefnogi. Mae profiad Vancouver yn dangos y gellir achub miloedd o fywydau os oes gennym yr ewyllys a'r penderfyniad i wneud hynny.

# Adroddiad Blynyddol 2012

## Dysgu gwersi yn sgil terfysgoedd mis Awst

Fel aelod o'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref, rwyf wedi treulio amser yn mynd trwy dystiolaeth am derfysgoedd yr Haf mewn sawl dinas yn Lloegr, gan ymweld â'r ardaloedd a gafodd eu heffeithio, mynd i garchardai a chymryd tystiolaeth gan yr heddlu a phobl eraill oedd yn gysylltiedig.

Mae'r achosion yn ddryslyd ac yn amrywiol, ac roedd y terfysgoedd hyn yn wahanol iawn i'r hyn yr ydym wedi ei weld yn y gorffennol. Dangosodd adroddiad yr Arglwydd Scarman fod terfysgoedd y 1980au wedi eu hysgogi gan anfodlonrwydd cymdeithasol ac achwyniadau gwirioneddol. Ymhellach yn ôl, ymgyrchodd Mudiad y Siartwyr a Merthyron Tolpuddle dros ddemocratiaeth a llythyren y gyfraith. Eleni roedd pethau'n wahanol. Mewn terfysgoedd efelychu, dewisodd bobl dargedau gwahanol mewn mannau gwahanol a chymerodd lawer o bobl oedd â swyddi a phroffesiwn ran yn yr ysbeilio yn syml am eu bod yn farus. Yn y carchar, dywedodd llawer wrthym mai dim ond "ymuno" yr oeddent yn ei wneud.

Mae angen ymchwiliad manwl i'r digwyddiad wnaeth "sbarduno" hyn i gyd – saethu un unigolyn yn Tottenham – am ein bod yn rhoi grymoedd i'r heddlu ein hamddiffyn ac mae'n rhaid peidio camddefnyddio'r grymoedd hynny. Ond mae swyddogion yr heddlu yn peryglu eu bywydau bob diwrnod o'r wythnos, felly mae'n rhaid eu hamddiffyn yn erbyn honiadau di-sail, felly mae'n rhaid gofyn cwestiynau anodd a ffurfio barnau yn ofalus.

Ni chawsom derfysgoedd yn Ne Cymru (er bod rhai unigolion wedi ceisio creu helynt) ac mae hynny'n bennaf oherwydd gwaith arweinwyr cymunedol, swyddogion yr heddlu a gweithwyr ieuenctid. Ni wnaeth y bartneriaeth, sy'n hanfodol i unrhyw gymuned, chwalu. Roedd hynny'n gyson â'r atebion a gefais gan Bill Bratton, y person sy'n cael ei alw'n 'Super-Cop' yr UD, wrth iddo roi tystiolaeth. Pwysleisiodd yr angen i weithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol ac asiantaethau cymunedol i atal troseddu ac atal gangiau rhag ffurfio.

Ond mae ffactorau economaidd yn berthnasol hefyd. Dangosodd ymchwil gan Ysgol Economeg Llundain a'r Guardian i anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd ysgogi cymryd rhan yn y terfysgoedd. Gwyddom fod yn rhaid gwneud toriadau, ond mae toriadau sydd yn rhy llym yn rhy gyflym yn cynyddu'r symiau y mae'r llywodraeth yn eu benthyg. Nid yw'r arian yn cael ei ddefnyddio i ysgogi twf ac adferiad – mae'n cael ei wastraffu ar roi mwy fyth o bobl ar y clwt.

Dewisais yrfa mewn gwleidyddiaeth ar ôl gweld pobl ifanc yn cael eu gadael mewn anobaith yn oes Thatcher – dyma fy rheswm dros gynnwys brwydro dros swyddi ac economi gref fel un o'm haddewidion etholiadol – ond ymddengys ein bod nawr yn mynd yn ôl i'r 80au. Diolch byth yng Nghymru mae ein Gweinidogion yn cymryd camau i roi gobaith ar gyfer y dyfodol i bobl ifanc, ond ni allwn osgoi effaith fawr yn sgil penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn Whitehall. Beth bynnag fo'r rheswm, mae'n drychinebus pan fo pobl yn taflu popeth i ffwrdd er mwyn cael cyfle i gael pâr newydd o esgidiau rhedeg.

## Eich Tîm Llafur Lleol

### Vaughan Gething AC a'r Gwir Anrhydeddus Alun Michael AS

Rydym yn cynnal sesiynau cynghori yn rheolaidd i helpu etholwyr. Os oes angen cymorth neu gyngor arnoch, cysylltwch gan ddefnyddio'r manylion isod. Neu anfonwch e-bost neu ysgrifennwch atom yn nodi eich problem, neu eich barn.

### Sut i Gysylltu â Mi

**Cyfeiriad:** Y Gwir Anrhydeddus Alun Michael AS
Tŷ'r Cyffredin
Llundain, SW1A 0AA

**Swyddfa Caerdydd:** **029 2022 3533**
**Swyddfa Llundain:** **020 7219 5980**
**Ebost:** alun.michael.mp@parliament.uk

### Sut i gysylltu â Vaughan

**Cyfeiriad:** Vaughan Gething AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd CF99 1NA

**Swyddfa Caerdydd:** 02920 898283
**Ebost:** Vaughan.gething@wales.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL

AM FLWYDDYN ARALL, NI YW'R UNIG DÎM AS YN Y DEYRNAS UNEDIG SYDD WEDI CAEL YR ARDYSTIAD BUDDSODDWYR MEWN POBL